WHC/2016/003

**CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU**

**Dyddiad Cyhoeddi:** 1 Chwefor

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**STATWS: CYDYMFFURFIO**

**CATEGORI: POLISI**

**Teitl:**

**Canllawiau Ychwanegol ar Brawf Talu ar gyfer Ad-dalu Ôl-hawliadau WHC/2016/003**

**Dyddiad dod i ben / Adolygu**

dd/b

**I'w weithredu gan:**

Byrddau iechyd
Ymddiriedolaethau'r GIG
Prif Weithredwyr
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol

**Angen gweithredu erbyn:**

Ar unwaith

**Anfonir gan: Neil Jones**

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru :**

**Neil Jones** jones.neil@wales.gsi.gov.uk

Is-adran Integreiddio, Polisi a Chyflawni, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
4ydd Llawr Parc Cathays 2, Caerdydd. CF10 3NQ.

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Atodiad 1

**ATODIAD 1 CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU WHC/2016/003**

**Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru**

**Canllawiau Ychwanegol ar Brawf Talu ar gyfer Ad-dalu Ôl-hawliadau.**

**Cefndir**

1. Ar 16 Rhagfyr 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru MD/ML/001/13. Supplementary Guidance (Proof of Payment) to Welsh Health Circular 015/2010 (Saesneg yn unig). Roedd y canllawiau hyn yn ymwneud yn benodol ag achosion a adolygwyd gan Brosiect Powys lle gwnaed cais am brawf talu pellach gan fyrddau iechyd lleol (BILlau) ar ddiwedd y broses.

2. Dilynodd canllawiau pellach yn WHC/2015/039 gan ymestyn egwyddorion y canllawiau atodol blaenorol a mynd i'r afael ag argymhellion Adroddiad Dilynol Gofal Iechyd Parhaus y GIG, a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Ionawr 2015. Roedd yn cyfeirio at:

   - yr hawliadau hynny a gyflwynwyd i BILlau ers mis Awst 2010 ond gallant ymwneud â chyfnodau cyn y dyddiad hwnnw;
   - yr hawliadau hynny a gyflwynwyd mewn ymateb i'r dyddiad cau, sef 31 Gorffennaf 2014, a all ymwneud ag unrhyw gyfnod rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Gorffennaf 2013.

3. Mae'r canllawiau hyn yn disodli WHC/2015/039. Maent yn cadw'r un trefniadau er nad ydynt bellach yn cyfeirio at y defnydd o'r Gyfradd Llys Sirol wrth gyfrifo ad-daliadau ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol ar gyfer hawliadau sydd eto i'w prosesu.

4. Ystyr 'gwneud yn iawn' yw gosod unigolyn yn y sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe bai Gofal Iechyd Parhaus y GIG wedi'i ddyfarnu ar yr adeg briodol, ac nid yw'n golygu y dylai'r GIG na'r cyhoedd elwa ar arian cyhoeddus. Ystyrir mai defnyddio'r mynegai prisiau manwerthu (RPI), heb ddidynnu budd-daliadau a lwfansau hanesyddol sydd eisoes wedi'u derbyn gan yr hawlydd, yw'r ffordd briodol o gyfrifo lefel deg o log sy'n daladwy yn ogystal â swm setliad yr hawliad. Ystyrir hefyd ei fod yn ffordd weddol syml o gyfrifo llog.

5. Gwelwyd bod cyfrifiad sy'n defnyddio'r Gyfradd Llys Sirol, gan ddidynnu budd-daliadau a lwfansau a dderbyniwyd, yn ffordd anymarferol o ddod i benderfyniad yn y rhan fwyaf o achosion, ac felly nid yw'n cael ei ystyried fel lefel briodol o log i'w ddefnyddio dan yr amgylchiadau hyn.

Gall hawlwyr sydd eisoes wedi gofyn am ystyried eu setliad gan ddefnyddio cyfrifiad Cyfradd Llys Sirol barhau i ddilyn hyn gyda'u Bwrdd Iechyd, ond byddai'n rhaid i'r holl wybodaeth a thystiolaeth berthnasol fod yn eu lle i wneud y cyfrifiad hwnnw. Os nad dyna'r achos, dylid dilyn y dull o gyfrifo gan ddefnyddio'r mynegai prisiau manwerthu.

Cytunwyd ar y trefniadau hyn gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

6. Mae'r trefniadau newydd bellach yn ymwneud â'r canlynol:
   - y cyfnodau hawlio a nodwyd uchod;
   - yr hawliadau hynny a gyflwynwyd o ganlyniad i'r dyddiad cau, sef 31 Hydref 2015, a all ymwneud ag unrhyw gyfnod rhwng 1 Awst 2013 a 30 Medi 2014;
   - yr hawliadau a gyflwynwyd ar ôl hynny.

**Egwyddorion Gweinyddiaeth Gyhoeddus Dda**

7. Dylai Byrddau Iechyd sicrhau eu bod, wrth eu gwaith, yn cydymffurfio ag Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r canllawiau llawn gan yr Ombwdsmon ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

   http://www.ombudsman-wales.org.uk/en/public-body-information/~/media/Files/Documents_en/Principles_of_Good_Administration.ashx

**Goblygiadau ar gyfer gwneud iawn mewn ôl-hawliadau Gofal Iechyd Parhaus**

8. Mae Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn gyrff gwneud penderfyniadau annibynnol, ac maent wedi cytuno ar y trefniadau ar gyfer ymdrin ag ôl-hawliadau fel y nodir yn Adran 6 o Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru (2014).

9. Mae'r trefniadau ar gyfer ymdrin ag ôl-hawliadau, fel y nodir yn Fframwaith 2014, yn glir bod prawf talu ffioedd gofal yn ofynnol ar ddechrau'r broses. Ni chaiff yr hawliad ei brosesu os na ellir darparu tystiolaeth o'r fath. Mae'r Fframwaith hefyd yn nodi bod angen i BILlau gydbwyso'r angen i ddarparu iawndal amserol â'r angen i ddangos uniondeb o ran pwrs y wlad (paragraff 6.10).

**Cais prydlon am Brawf Talu a blaenoriaethu hawliadau yn deg**

10. Cyfrifoldeb y BILl yw gwneud cais am brawf talu ac awdurdod cyfreithiol i gyflwyno hawliad yn brydlon ar ôl cael cais neu fwriad i hawlio (e.e. llythyr i'r BILl). Dylai'r cais

ysgrifenedig am Brawf Talu gael ei bostio o fewn 10 diwrnod gwaith a'i gofnodi ar gronfa ddata'r BILl.

11. Ni ddylai unrhyw hawlydd fod o dan anfantais oherwydd bod y BILl wedi methu gwneud cais am brawf talu yn brydlon. Os nad yw'r BILl wedi cydymffurfio â'r amserlen fel y nodir uchod, dylai addasu'r amserlen ar gyfer adolygu yn unol â hynny.

12. Fel y nodir yn y Fframwaith, mae'n rhesymol disgwyl i'r hawlydd ddarparu'r prawf gofynnol o fewn pum mis, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys. Dylai'r BILl ddangos tystiolaeth o'r canlynol:

    - ei fod wedi monitro cynnydd gyda'r hawlydd;
    - tystiolaeth o oedi yn sgîl asiantaethau eraill; a
    - bod unrhyw amgylchiadau eithriadol wedi cael eu hystyried.

13. Dylai'r BILl roi adborth i'r hawlydd a dilysu neu wrthod yr hawliad o fewn 6 wythnos (30 diwrnod gwaith) i dderbyn y prawf talu.

**Penderfyniadau rhesymedig a rhesymol ar brawf talu derbyniol.**

14. Dylai BILlau wneud penderfyniadau rhesymedig a rhesymol ynglŷn â derbyn tystiolaeth o brawf talu, gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael ac sy'n berthnasol. Dylai BILlau gofio efallai na fydd tystiolaeth yn gyflawn oherwydd treigl amser.

15. Er mwyn dangos rhesymoldeb, bydd angen i BILlau ddefnyddio rhywfaint o ddisgresiwn o ran lefel y dystiolaeth sy'n briodol yn eu barn hwy, yn dibynnu ar y cyfnod y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef. Ar gyfer achosion sy'n ymwneud â dyddiad diwedd cyfnod hawlio o 5 mlynedd neu lai, dylid darparu'r holl dystiolaeth sy'n hygyrch, gan gynnwys datganiadau banc, datganiadau cartrefi gofal ac anfonebau. Bydd hyn yn dangos nad oes dyledion heb eu talu i'r darparwr gofal os yw deiliad yr hawliad yn ymadawedig oni bai bod amgylchiadau esgusodol.

16. Fel isafswm, dylai BILlau fodloni eu hunain:

    - Bod yr unigolyn yn preswylio mewn cartref gofal am y cyfnod(au) cymhwysedd;
    - Nad oes tystiolaeth bod unrhyw gorff nac asiantaeth gyhoeddus wedi talu'r cyfan o'r ffioedd neu ran ohonynt; ac
    - Nad oes dyledion heb eu talu, e.e. ffioedd heb eu talu i'r cartref gofal.

**Cyfrifo ad-daliad yn deg a thryloyw**

17. Wrth benderfynu ar werth yr ad-daliad, dylai'r BILl ddefnyddio rhesymeg dryloyw a chyfrifiadau clir.

18. Os oes tystiolaeth yn bodoli o brawf talu am ran o'r cyfnod hawlio, ac y tybir bod y dystiolaeth hon yn gadarn, yna dylid defnyddio hyn fel sail ar gyfer cyfrifiadau pellach sy'n cwmpasu'r cyfnod hawlio cyfan.

19. Lle nad yw'r dystiolaeth o gost ariannol gan yr hawlydd yn ddigon cadarn, gall BILlau gyfrifo cynigion ad-dalu yn seiliedig ar ddangosydd cost gwahanol a rhesymedig; er enghraifft, y gyfradd cartref gofal preswyl dibyniaeth uchel a weithredir gan yr Awdurdod Lleol yn yr ardal yn ystod y cyfnod cymhwysedd.

20. Os oes tystiolaeth bod awdurdod cyhoeddus wedi talu cyfran o ffioedd cartref nyrsio'r hawlydd yn uniongyrchol i'r cartref nyrsio, gall ofod yn briodol lleihau'r ad-daliad er mwyn lleihau'r gyfran honno.

21. Ystyrir ei bod yn rhesymol i BILlau ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Manwerthu arferol, ar gyfer cyfrifo llog wrth ystyried iawndal mewn adolygiadau gofal parhaus. Lle defnyddir Mynegai Prisiau Manwerthu i gyfrifo llog ni cheir didyniad ar gyfer budd-daliadau a dderbynnir gan yr hawlydd yn ystod y cyfnod hawlio (ac mae’r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cytuno na fydd y budd-daliadau hynny yn cael eu hadennill).

22. Ar ôl dod i benderfyniad ynghylch cymhwysedd, ni ddylai Byrddau Iechyd fel rheol gymryd mwy nag 1 mis (20 diwrnod gwaith) i gyfrifo ad-daliad ac anfon llythyr indemniad i’r hawlydd.

**Taliadau ex-gratia**

23. Yn ogystal â'r egwyddorion ad-dalu a nodwyd uchod, efallai y bydd adegau pan fydd BILlau hefyd yn dymuno ystyried gwneud taliadau ex-gratia yn unol â'r canllawiau presennol ar Golledion a Thaliadau Arbennig yn Llawlyfr Cyfrifon Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol GIG Cymru. Anogir BILlau i geisio cyngor cyfreithiol am achosion unigol lle y bo angen, a gwneud taliadau ex-gratia os yw hynny'n briodol.

**Anghydfodau**

24. Os yw’r hawlydd yn anfodlon ar y dull a gymerir gall godi pryder gyda'r BILl perthnasol. Bydd eu pryder yn cael ei drin yn unol â Rheoliadau’r Gwasanaeth

Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011. Gall hawlwyr hefyd gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.